# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-16-08)

Dyddiad: 17 Mehefin 2008
Amser : 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**SLC169 - Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008**

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed ar ... 2008. Yn dod i rym ar 1 Awst 2008.

Diwygir Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru o 1 Awst ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i estyniad yr amrediad oed ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith er mwyn iddo fod hefyd yn gymwys i'r disgyblion hynny sydd yn y trydydd cyfnod allweddol, ac yn diwygio enwau'r pynciau sylfaen ar gyfer 'technoleg' a 'celfyddyd'.

**Item 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (Y weithdrefn negyddol)**

**SLC167 - Gorchymyn Addysg (y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 30 Mai 2008

. Fe'i gosodwyd ar 2 Mehefin 2008. Yn dod i rym 1 Awst 2008. Mae "iaith dramor fodern" yn bwnc sylfaen yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru yn y trydydd cyfnod allweddol. Mae'n ofynnol i'r ieithoedd hynny sydd i'w cyfrif yn ieithoedd modern at ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol gael eu pennu mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, neu, fel arall, caiff Gorchymyn o'r fath ddarparu bod unrhyw iaith dramor fodern yn iaith dramor fodern at y cyfryw ddibenion. Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod unrhyw iaith dramor fodern yn iaith dramor fodern, a bod unrhyw gwestiwn ynghylch a yw iaith dramor yn iaith dramor fodern i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

**SLC168 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol) a (Rhestri Cyflawnwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 4 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

- mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 ("y Rheoliadau Contractau GMS") a hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y Rheoliadau Rhestri Cyflawnwyr").

Dyma'r effaith y mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Contractau GMS yn ei gael:-

Diwygio cyfeiriadau at "incapable adults" i gyfeiriadau sy'n adlewyrchu'r termau a ddefnyddir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005;

Diwygio darpariaethau sy'n ymwneud â system llywodraethu clinigol y contractiwr yn arbennig mewn perthynas â rheoli a defnyddio cyffuriau a reolir; a

Gwneud mân newidiadau i'r cyfyngiadau ar y rhai sy'n gymwys i gontractio i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol.

Mae'r Rheoliadau Rhestri Cyflawnwyr wedi'u diwygio er mwyn darparu bod:-

y cyfnod pryd y caiff cyflawnwr ddarparu gwasanaethau meddygol neu ddeintyddol sylfaenol ac yntau heb fod ar y rhestr a ddeil gan Fwrdd Iechyd Lleol yn cael ei estyn o ddeufis i dri mis;

Ei gwneud yn glir bod cyflawnwr y mae ei enw wedi'i dynnu dros dro oddi ar restr i gael ei drin fel petai wedi'i gynnwys yn y rhestr mewn perthynas ag unrhyw gais y caiff ef neu hi ei wneud i gael ei gynnwys/ei chynnwys mewn rhestr arall; a

Gall meddyg sy'n ymgymryd â'r rhan ôl-gofrestru o'r rhaglen sylfaen i feddygon sydd newydd gymhwyso, gyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol ac yntau heb fod yn ymarferydd cyffredinol na'i enw wedi'i gynnwys ar restr, i'r graddau y mae cyflawni'r gwasanaethau meddygol sylfaenol yn rhan o'r rhaglen honno.

### SLC 171 - Gorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 4 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 6 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwahardd:-

pysgota am gŵn gleision drwy ddefnyddio unrhyw ddull heblaw gwialen a lein;

trawslwytho cŵn gleision; a

glanio yng Nghymru gŵn gleision a ddaliwyd â gwialen a lein neu gŵn gleision y torrwyd eu pennau.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn nodi'r uchafswm mewn pwysau byw o gŵn gleision y gellir eu cadw ar fwrdd cwch bysgota ac mae'n nodi pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydain mewn perthynas â'r Gorchymyn.

### SLC172 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (a oedd yn rheoliadau cadarn) ("Rheoliadau 2007") trwy:-

Addasu Atodlen 1 Rheoliadau 2007 i ddarparu y dylai unrhyw fenthyciad ychwanegol, y nodir y cymhwystra ar ei gyfer yn y "Student support in Scotland Guide" a gyhoeddir gan Asiantaeth Dyfarndaliadau Myfyrwyr yr Alban ac a delir o dan Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2007, gael ei ddiystyru wrth gyfrifo incwm i fyfyriwr i'r diben o gyfrifo hawlogaeth o dan Gynllun Incwm Isel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

Addasu Atodlen 1 Rheoliadau 2007 i ddarparu mai dim ond £20 o daliad gwirfoddol a wneir i fyfyriwr sydd i'w ddiystyru wrth gyfrifo incwm y myfyriwr hwnnw i'r diben o gyfrifo hawlogaeth o dan Gynllun Incwm Isel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Diwygio Rheoliadau 2007 er mwyn cynyddu'r terfyn cyfalaf isaf, a ddefnyddir fel sail i gyfrifo hawlogaeth i dalu treuliau teithio a pheidio â chodi tâl, i'r bobl hynny sy'n byw'n barhaol mewn gofal preswyl o dan y Rheoliadau hynny.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

### SLC170 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2008. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynnal refferenda sydd i'w cynnal o dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Mae'r refferenda yn ymwneud â ffurf y trefniadau gweithrediaeth y dylai cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol eu mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi ffurfiau penodol sydd i'w defnyddio mewn refferendwm gan gynnwys ffurf y geiriad yn y datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn mewn refferendwm.

### Item 3.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (Y weithdrefn negyddol)

### SLC166 - Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 30 Mai 2008

. Fe'i gosodwyd ar 2 Mehefin 2008. Yn dod i rym 1 Awst 2008 ac eithrio'r hyn a ddarperir gan erthyglau 4(1), 5(1), 6(1), 7(1), 8(1), 9(1), 10(1), 11(1), 12(1), 13(1), 14(1) a 15(1) a (2).

Diwygir Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru o 1 Awst 2008 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i'r rhaglenni astudio, sy'n gosod yr hyn y dylid ei addysgu i ddisgyblion a thargedau cyrhaeddiad ar eu cyfer.

### Eitem 4: Unrhyw fater arall

**Papur i'w nodi -** SLC(3)-15-2008(p2) - Adroddiad ar yr ymweliad â Senedd yr Alban

### Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf